

**Cymdeithas Gwenynwyr Cymru**  
**CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU**

Elusen Gofrestredig Rhif 509929



**POLISI AMODAU A THELERAU DEFNYDDIO'R**  
**WEFAN**

Arweiniad i ymddiriedolwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr eraill ar  
ran CGC

Adolygir y polisi hwn yn barhaus, o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd CGC yn adolygu'r  
polisi hwn, yn dilyn ymgynghori, lle y bo'n briodol.

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: Rhagfyr 2022

Croeso i'n gwefan. Os ydych chi'n parhau i bori'r wefan hon ac i'w defnyddio, rydych chi'n cytuno i gydymffurfio â'r amodau a thelerau defnydd canlynol, ac i ymrwymo iddyn nhw. Mae'r rhain, ynghyd â'n polisi preifatrwydd, yn rheoli perthynas Cymdeithas Gwenynwyr Cymru â chi o ran y wefan hon. Os ydych chi'n anghytuno ag unrhyw ran o'r amodau a thelerau hyn, peidiwch â defnyddio ein gwefan.

Mae'r term 'CGC', 'Cymdeithas Gwenynwyr Cymru' neu 'ni' yn cyfeirio at berchennog y wefan, ei swyddfa gofrestrdig yw Mertyn Downing, Treffynnon/Holywell, Sir y Fflint, CH8 9EP. Elusen yw Cymdeithas Gwenynwyr Cymru a'n rhif cofrestru elusen yw 509929. Rydyn ni wedi ein rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau.

Mae'r term 'chi' yn cyfeirio at ddefnyddiwr ein gwefan neu'r person sy'n edrych arni.

Mae defnyddio'r wefan hon yn amodol ar y telerau defnyddio canlynol:

### **Cyffredinol**

- Mae cynnwys tudalennau'r wefan hon er gwybodaeth a defnydd cyffredinol i chi yn unig. Gall newid yn ddirybudd.

### **Preifatrwydd**

- Mae CGC yn gwerthfawrogi eich preifatrwydd ac mae hi wedi datblygu Polisi Preifatrwydd i esbonio beth rydyn ni'n ei wneud a beth nad ydyn ni'n ei wneud â'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu â ni. Mae'r polisi ar gael yn adran Polisiau ein gwefan.

### **Cwcis**

- Mae'r wefan hon yn defnyddio cwcis i gofnodi gwybodaeth y sesiwn. Maen nhw'n casglu data ystadegol am eich dewisiadau pori, ond dydyn nhw ddim yn eich adnabod chi fel unigolyn. Mae'r cwcis yn ein helpu ni i roi gwasanaeth gwell, wedi'i bersonoli'n fwy. Mae'n bosibl diffodd cwcis ar eich cyfrifiadur gan ddefnyddio eich offer pori neu wrthod y botwm pob un/all ar ein hysbysiad cwcis. Efallai na fydd ein gwefan yn gweithio cystal drwyddi draw os ydych yn diffodd pob cwci.

### **Gwybodaeth wedi'i chofnodi'n awtomatig**

- Rydyn ni'n defnyddio eich cyfeiriad IP i helpu i ddadansoddi problemau gyda'n gweinydd, i weinyddu ein gwefan ac i gasglu gwybodaeth ddemograffig gyffredinol. Dydy'r cyfeiriad IP ddim yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol.

### **Diogelwch**

- Mae gan y wefan hon fesurau diogelwch yn eu lle i amddiffyn rhag colli, camddefnyddio a newid y wybodaeth o dan ein rheolaeth.

### **Defnydd Personol ac Anfasnachol**

- Mae eich defnydd o unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau ar y wefan hon er defnydd personol ac anfasnachol yn unig. Rydych chi'n defnyddio'r deunyddiau ar eich menter eich hun yn llwyr, a fyddwn ni ddim yn atebol dros hyn. Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau bod pob cynnyrch, gwasanaeth neu wybodaeth sydd ar gael drwy'r wefan hon yn bodloni eich gofynion penodol.

### **Dolenni i wefannau eraill**

- O bryd i'w gilydd, efallai bydd y wefan hon yn cynnwys dolenni i wefannau eraill. Mae'r dolenni hyn yno er hwylustod i chi er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth. Dydy'r dolenni ddim yn golygu ein bod ni'n cymeradwyo'r wefan neu'r gwefannau. Does gennym ni ddim cyfrifoldeb dros gynnwys a pholisiau preifat y wefan/gwefannau sydd wedi'i/u dolennu.

### **Indemniadau**

- Dydyn ni nac unrhyw drydydd parti ddim yn rhoi unrhyw warant neu sicrwydd o ran cywirdeb, amseroldeb, perfformiad, cyflawnder neu addasrwydd y wybodaeth a'r deunyddiau sydd ar y wefan hon neu sy'n cael eu cynnig arni at unrhyw ddiben penodol. Rydych chi'n cydnabod y gall gwybodaeth a deunyddiau o'r fath gynnwys gamsyniadau neu wallau ac rydyn ni'n eithrio'n benodol atebolrwydd am gamsyniadau neu wallau o'r fath i'r graddau eithaf y mae'r gyfraith yn eu caniatáu.
- Dydy hi ddim yn bosibl dal CGC yn gyfrifol am ddiffygion o ran amser ar-lein, lle dydy'r wefan ddim ar gael oherwydd gwaith cynnal a chadw, oherwydd bod y gwesteigr yn methu neu'r gronfa ddata wedi'i cholli.
- Rydych chi'n cytuno i indemnio CGC o bob ac unrhyw hawliad, colled, iawndal, atebolrwydd, costau a threuliau (gan gynnwys ffioedd cyfreithiol rhesymol) sy'n codi o ddefnydd anghywir neu anghyfreithlon o'r wefan hon neu o unrhyw dorri unrhyw gynrychiolaeth gennych chi yn y Cytundeb hwn.

### **Hawlfraint**

- Mae'r wefan hon yn cynnwys deunyddiau sy'n eiddo i ni neu sydd wedi'u trwyddedu i ni. Mae'r deunydd hwn yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddo: sut mae'r wefan wedi'i dylunio, wedi'i gosod, sut mae'n edrych a'r graffeg. Does dim hawl atgynhyrchu'r rhain ac eithrio yn unol â'r hysbysiad hawlfraint isod, sy'n rhan o'r amodau a thelerau hyn.
- Cewch lawrlwytho a chopio gwybodaeth at eich defnydd personol ond i chi gynnal pob un o amodau'r hawlfraint. Mae unrhyw ffeiliau sy'n cael eu lawrlwytho o'r wefan yn dod o dan amodau a thelerau a hawlfraint yr awdur.

- Rydym yn cydnabod ar y wefan bob nod masnachu sydd wedi'i atgynhyrchu yn y wefan hon nad yw'n eiddo i'r gweithredydd, neu wedi'i drwyddedu iddo.

### **Defnydd Heb ei Awdurdodi**

- Os ydych chi'n gwneud defnydd heb ei awdurdodi o'r wefan hon, gall fod yn achos hawlio am iawndal a/neu fod yn drosedd.

### **Cyfraith Iywodraethol**

- Mae eich defnydd o'r wefan hon ac unrhyw anghydfod sy'n codi o ddefnyddio'r wefan dan reolaeth cyfreithiau Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.